

Taflen Wybodaeth I Gleifion



Gofalgar, effeithlon ac yn canolbwyntio ar y claf: mae ein Huned Llawdriniaeth Dydd y GIG wedi ymrwymo i gynnal eich lles a darparu gofal llawfeddygol rhagorol.

Beth yw Llawdriniaethau Dydd?

Mae llawdriniaeth ddydd yn llawdriniaeth neu'n driniaeth llawfeddygol nad oes angen aros dros nos mewn ysbyty ar ôl ei chael. Daw cleifion i'r ysbyty ar ddiwrnod eu triniaeth, a byddant yn mynd adref yr un diwrnod. Mewn achosion prin, efallai bydd ar gleifion angen mwy o amser i adfer, ac os felly, bydd angen eu trosglwyddo i safle

un o'r ysbytai eraill. Mae Uned Llawdriniaethau Dydd Nevill Hall ar agor o 07:00am i 19:30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

I sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion, nid ydynt yn caniatáu i ymwelwyr ddod i'r Uned Llawdriniaethau Dydd, oni bydd aelod o'r staff yn cynghori y dylid caniatáu hynny, dan amgylchiadau arbennig.

Gwybodaeth am yr Ymprydio

Peidiwch â bwyta ar ôl 02:00am ar fore eich llawdriniaeth. Yfwch ddiod hylifau clir (dŵr, sgwash, te neu goffi du) cyn 06:00am. Gallwch barhau i sipian dŵr (dim mwy nag 1 gwpanaid) bob awr wedi 6am.

Dylech ddod â'r canlynol:

- Unrhyw feddyginiaethau neu anadlyddion rydych yn eu cymryd.
- Gŵn nos a sliperi (os oes gennych chi rai)
- Rhywbeth i'w ddarllen/ffôn symudol ac ati
- Enw a rhif ffôn perthynas neu ffrind sy'n dod i'ch casglu ar ôl eich triniaeth
- Ni all Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gymryd cyfrifoldeb am unrhyw eitemau gwerthfawr a gludir i'r uned

Yn Ystod Eich Arhosiad

Ewch i'r Dderbynfa ar ôl cyrraedd yr Uned Llawdriniaethau Dydd (DSU). Yna, fe wnaiff rhywun eich hebrwng i fan aros, ac yno, bydd y staff yn cychwyn cynnal eu gwiriadau diogelwch ac yn eich paratoi ar gyfer eich triniaeth.

Nid yr amser cyrraedd yr uned sydd wedi'i nodi yn eich llythyr yw amser cynnal y driniaeth. Gallech gael y driniaeth ar unrhyw adeg yn ystod y dydd. Byddwch yn treulio ychydig oriau yn yr uned (dan rai amgylchiadau, bydd angen bod yno am ddiwrnod cyntaf).

Bydd unrhyw amseroedd a nodir yn fras. Cofiwch y bydd union amser cychwyn llawdriniaeth yn dibynnu ar driniaethau eraill sydd ar y rhestr. Gall yr amser sydd ei angen i adfer amrywio hefyd, ac efallai y bydd ar rai cleifion angen mwy neu lai o amser i adfer.

Yn ein wardiau llawdriniaethau dydd, ceir cilfachau ar wahân i ddynion a merched, a chyfleuster toiled ar wahân. Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch eich preifatrwydd neu eich urddas yn y math hwn o leoliad, hysbyswch y nyrs a fydd yn gofalu amdanoch chi ac fe wnawn ni ein gorau i ymateb i'ch dymuniadau. Mewn rhai manau, megis y manau adfer, mae'n rhaid i ddynion a merched fod gyda'i gilydd. Ymdrechir i'r eithaf i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn y manau hyn trwy ddefnyddio sgriniau a llenni.

Bydd aelod o'r staff yn dod i'ch nôl o'r man aros pan ddaw'r amser i chi gael eich triniaeth.

Ar ol cwblhau'r driniaeth, cewch eich symud i leoliad cam cyntaf yr adferiad a byddwch yn aros yno nes byddwch yn hollol effro ac yn teimlo'n gyfforddus cyn cael eich cludo i'n ward llawdriniaethau dydd i gwblhau ail gam yr adferiad

Yma, cewch eich annog i:

- eistedd ar gadair wrth gyrraedd
- symud
- defnyddio'r tŷ bach
- bwyd
- yfed
- gwisgo

Ar ôl eich llawdriniaeth, rheolir eich poen gan ddefnyddio sawl dull gwahanol. Rhoddir Parasetamol ac Ibuprofen i'r rhan fwyaf o gleifion. Mae'n debyg y cewch y dos cyntaf cyn eich llawdriniaeth, i sicrhau y bydd y cyffur yn gweithio erbyn i'ch llawdriniaeth ddod i ben. Mae defnyddio'r poenladdwyr syml hyn yn sicrhau gostyngiad sylweddol yng nghyfanswm y poenladdwyr cryf y bydd arnoch eu hangen, ac felly, mae hynny'n cyfyngu ar y sgil effeithiau sy'n gysylltiedig â'r cyffuriau cryfach hyn.

Pan fyddwch yn gadael yr ysbyty, byddwch yn cael:

- Cyngor ynghylch sut i ofalu am eich briwiau/gorchuddon
- Cyngor ynghylch lleihau clotiau gwaed a/neu sanau cywasgu a/neu bigiadau i gynorthwyo i'w lleihau
- Manylion cyswllt rhag ofn y bydd gennych unrhyw bryderon a bydd arnoch angen cyngor wedi'r llawdriniaeth
- Rydym yn argymhell y dylech sicrhau bod gennych gyflenwad o boenladdwyr syml gartref (er enghraifft, parasetamol ac ibuprofen). Os bydd angen unrhyw feddyginiaethau ychwanegol, bydd yr ysbyty yn eu rhoi i chi.
- Gwybodaeth am unrhyw apwyntiadau dilynol gofynnol.

COFIWCH sicrhau bod rhywun ar gael i'ch casglu o'r Ysbyty ac y gallwch ddarparu eu manylion cyswllt.

COFIWCH sicrhau bod oedolyn cyfrifol ar gael i'ch goruchwylio am 24 awr ar ôl eich rhyddhau.

NI DDYLECH fynd adref ar eich pen eich hun mewn tacsï neu gan ddefnyddio gwasanaeth cludiant cyhoeddus.

NI DDYLECH yrru am o leiaf 24 awr ar ôl cael eich anaestetig cyffrendinol.

Llwybr at Lawdriniaeth

Clinig asesu ymlaen llaw
ble cewch eich gweld gan
Nyrs neu Anaesthetegydd

Eich Derbyn
i Uned Llawdriniaethau
Dydd Ysbyty Nevill Hall
erbyn 7.30am

Llawdriniaeth
Byddwch yn aros gyda
chleifion eraill a gallech gael
eich llawdriniaeth ar unrhyw
adeg yn ystod y dydd.

Cam 1af yr Adferiad
Dyma ble byddwch yn deffro
ar ôl cael eich triniaeth

2il gam yr Adferiad
Dyma ble byddwn yn
sicrhau eich bod yn barod i
gael eich rhyddhau

Rhyddhau o'r Uned erbyn 19:30

Rhifau cyswllt defnyddiol ar ol eich llawdriniaeth

Uned Llawdriniaethau Dydd Ysbyty Nevill Hall-01873 732269/732087
Oriau agor: 07:00-19:30 dydd Llun-dydd Gwener

Uned Aseidiadau Llawfeddygol (SAU)-01633 493341
Uned Aseidiadau Gynaecolegol-01633 493556

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**